# *Y GYMDEITHAS GOFAL*

## SWYDD-DDISGRIFIAD

**Swydd:** Gweithiwr Prosiectau Nos

**Lleoliad:** Aberystwyth

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr Lloches Nos a Llety Dros Dro / Swyddog Llety Dros Dro

### Dyma fydd prif amcanion y swydd:

Byddwch yn gweithredu fel rhan o dîm i ddarparu gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl heb do uwch eu pennau, gyda'r nod o'u hailsefydlu a chynnig llety brys ar eu cyfer. Byddwch yn weithgar wrth hyrwyddo a meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, cydweithwyr ac asiantaethau allanol gyda'r bwriad o wella enw da'r sefydliad.

**Rôl:**

Bydd y Gweithiwr Prosiectau Nos yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Lloches Nos a Llety Dros Dro / y Swyddog Llety Dros Dro wrth gyflawni'r tasgau canlynol:

- cynnal cofnodion gwrthrychol cywir, gan gynnwys nodi'r holl bethau sy'n digwydd yn ystod y sifft yn y llyfr log dyddiol (a'u defnyddio mewn ôl-drafodaeth â Rheolwr y Prosiect pan fo modd);
- cyflawni cyrchoedd cynlluniedig o'r lletyau, archwilio pryderon sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, gormod o sŵn ac aflonyddwch, a delio â phroblemau o'r fath ar y cyd â chydweithwyr;
- defnyddio'r gwasanaeth ar-alwad bryd bynnag y bo'i angen yn y nos;
- dilyn unrhyw geisiadau neu gyfarwyddiadau a nodir yn y cofnod dyddiol gan y Rheolwr Prosiect;
- cadw'n hollol wybyddus o ddatblygiadau'r sefydliad trwy'r sianeli cyfathrebu sydd ar gael;
- cynnal perthnasoedd gwaith cryf â thimau eraill o fewn y Gymdeithas Gofal;
- cydymffurfio â holl bolisïau perthnasol y sefydliad;
- rhoi gwybod i'r awdurdodau priodol am unrhyw ddifrod neu ddiffyg;
- cynorthwyo defnyddwyr lloches a/neu breswylwyr ag ymholiadau a'u "cyfeirio" at yr asiantaethau perthnasol os oes angen;
- cyflawni dyletswyddau glanhau yn ôl yr angen;
- cymryd rhan mewn goruchwyliaethau a drefnwyd trwy gydol y flwyddyn;
- cynrychioli'r Gymdeithas Gofal yn gadarnhaol ac yn broffesiynol bob amser;
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

**Cyfrifoldebau Cyffredinol y Gymdeithas Gofal:**

- Mae'r Gymdeithas Gofal wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol yn rhinwedd ei swydd fel cyflogwr ac wrth ddarparu ei holl wasanaethau. Cyfrifoldeb unigol pob aelod o'r staff yw sicrhau bod y Polisi hwn yn cael ei weithredu.

- O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, mae'n ofynnol i'r holl weithwyr ofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ynghyd â diogelwch gweithwyr eraill ac aelodau o'r cyhoedd, a chydweithredu â'r Gymdeithas i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol.

- Mae glynu'n gaeth wrth gyfrinachedd, yn enwedig o ran manylion personol staff a defnyddwyr gwasanaeth, o'r pwys mwyaf.

- Mae cyfathrebu a gweithio fel tîm yn agweddau hanfodol ar lwyddiant ein gwaith fel Cymdeithas. O ganlyniad, mae pob aelod o'r staff wedi'i gontractio i fynychu cyfarfodydd o'r tîm a'r sefydliad yn rheolaidd yn ôl y cyfarwyddyd, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant angenrheidiol.

- Cyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo'r prosiectau a mentrau pellach o fewn y Gymdeithas.

Er bod y disgrifiad hwn yn rhoi blas ichi o ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfredol y deiliad swydd, nid yw'n gynhwysfawr. Mae'n anochel y bydd y dyletswyddau'n newid wrth i'r rôl ddatblygu, ac felly mae angen ei ystyried â rhywfaint o hyblygrwydd fel y gellir diwallu unrhyw newid i amgylchiadau. Wrth i'r cynllun ddatblygu, caiff y disgrifiad ei adolygu gyda'r deiliad swydd.

# TELERAU CYFLOGAETH

**Gweithiwr Prosiectau Nos**

| | |
|---|---|
| **Cyfradd wrth yr Awr:** | £12.00 yr awr |
| **Hyd:** | Parhaol yn amodol ar gyllid |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth |
| **Amserau Dyletswydd:** | • Sifft Nos 6.00pm i hanner nos<br>• Sifft Nos  5.00pm- i hanner nos<br>• Sifft Nos 7.00pm – midnight<br>• Amser Dydd dros y Penwythnos 8.00am – 6.00pm, gellir ei rannu i 2 sifft x 5 awr<br>• Amser Dydd dros y Penwythnos 9.00am – 5.00pm<br>• 8.00pm – 8.00am sifft effro dros nos<br><br>Mae’n ofynnol i chi fod ar gael i weithio unrhyw gyfuniad o’r patrymau sifft uchod. |
| **Gwyliau:** | 5.6 wythnos y flwyddyn *pro rata* |
| **Cyfnod Prawf:** | 6 mis i weithwyr newydd |
| **Ysmygu:** | Mae Polisi Dim Ysmygu’n weithredol ar gyfer pob Prosiect |
| **Rhybudd:** | 1 mis |
| **Tystlythyrau:** | Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn dibynnu ar dderbyn tystlythyrau boddhaol gan gyflogwyr presennol a blaenorol ynghyd â gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| **Cyfleoedd Cyfartal:** | Mae’r Gymdeithas yn gweithredu Polisi Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiaeth |

**Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974**

Mae’r swydd rydych wedi gwneud cais amdani wedi’i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn rhinwedd **Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974** (Eithriadau) 1975. O ganlyniad, ni fyddwch yn torri’r Ddeddf trwy ddatgelu gwybodaeth am euogfarnau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried fel rhai a “ddisbyddwyd”.

## Manyleb y Person ar sail Cymwyseddau

**Gweithiwr Prosiect Nos**

| Cymhwysedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gweithio ar eich pen eich hun | Byddwch yn gweld eich gwaith ac yn mynd ato ac yn cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hun | |
| Gweithio gydag eraill | Byddwch yn wrthrychol, yn anfeirniadol ac yn dangos parch wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth | |
| Y Ffocws ar Gwsmeriaid | Byddwch yn darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac yn gwneud penderfyniadau ar sail dealltwriaeth o'u hanghenion amrywiol | |
| Uniondeb | Byddwch yn cadw cyfrinachedd bob amser o fewn a thu allan y gweithle | |
| Gwaith Tîm | Byddwch yn  meddu ar y gallu i gyfrannu'n gyfartal ac yn effeithiol i'r tîm a chydweithio ynddo | |
| Sgiliau Rhyngbersonol: Cyfathrebu | Byddwch yn mynegi'ch hun yn glir wrth ysgrifennu a siarad, ac yn cytgordio â defnyddwyr gwasanaeth | |
| Sgiliau Rhyngbersonol: Cyfathrebu mewn sefyllfaoedd anodd | | Byddwch yn defnyddio empathi a chymrodedd wrth ddatrys sefyllfaoedd anodd |
| Gwneud Penderfyniadau | Byddwch â'r gallu i ddewis rhwng dau neu fwy o gamau gweithredu trwy bwyso a mesur manteision ac anfanteision | |
| Hyblygrwydd | Byddwch â'r parodrwydd a'r gallu i addasu i amgylchiadau newidiol ac i weithio oriau anghymdeithasol | |
| Ennill Gwybodaeth | | Byddwch â'r profiad a'r ymwybyddiaeth o weithio gyda phobl ddigartref neu ddifreintiedig |
| Gofyniad Cyffredinol | | Trwydded Yrru Lawn |
| Ieithoedd | | Y gallu i siarad Cymraeg |